5ed Cyfarfod Grŵp Llywio PBC, 15 Gorffennaf 2008, Amgueddfa Genedlaethol Cymru, Caerdydd

Yn bresennol		Sefydliad
Nigel	Ajax Lewis	Ymddiriedolaeth Natur De-ddwyrain Cymru
Michelle	Bromley	Y Comisiwn Coedwigaeth
Steven	Bromley	Groundwork Cymru
Mike	Bruford	Prifysgol Caerdydd
Aethne	Cooke	Cyngor Cefn Gwlad Cymru
Jennifer	Dack	Asiantaeth yr Amgylchedd
Hazel	Drewett	Cyngor Cefn Gwlad Cymru
Mike	Dunn	Llywodraeth Cynulliad Cymru
Gareth	Ellis	Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog / Ysgrifenyddiaeth PBC
Peter	Frost	Cyngor Cefn Gwlad Cymru
Frances	Gillett	Llywodraeth Cynulliad Cymru (Ysgrifenyddiaeth PBC)
Ian	Guildford	Awdurdodau Heddlu Cymru
Elinor	Gwynn	Cyngor Cefn Gwlad Cymru
Juliet	Hynes	Llywodraeth Cynulliad Cymru (Ysgrifenyddiaeth PBC)
David	Jenkins	Coed Cymru
Steve	Moon	Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr
Amy	Mulkern	Partneriaethau Natur Cymru, Ymddiriedolaethau Natur Cymru
David	Parker	Cyngor Cefn Gwlad Cymru
Hannah	Pitt	Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol
Diana	Reynolds	Llywodraeth Cynulliad Cymru (Ysgrifenyddiaeth PBC)
Joanna	Robertson	Cyngor Cefn Gwlad Cymru
Adam	Rowe	Canolfannau Cofnodion Lleol Cymru
Shaun	Russell	Canolfan Ymchwil Amgylcheddol Cymru
Tim	Stowe	RSPB
Dusitaporn	Thomas	Dŵr Cymru
Philip	Trembath	Rhwydwaith Arena
Kate	Williamson	Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri
Ray	Woods	Plantlife
Robin	Woodyatt	CLILC

Ymddiheuriadau

Gan	Sefydliad	Cynrychiolwyr yn bresennol
Chris Mills	Asiantaeth yr Amgylchedd	Jennifer Dack yn ei gynrychioli
Dr Glenda Thomas	FWAG Cymru	
David Bullock	Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol	

Trevor Dines	Plantlife	
Ieuan Roberts	Cymdeithas Edward Llwyd	
Helen Buckingham	Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol	
Cliff Benson	Sea Trust	
Sean McHugh	Ysgrifenyddiaeth PBC	
Bill Somerfield	Ysgrifenyddiaeth PBC	
Julia Korn	Ysgrifenyddiaeth PBC	
Laura Palmer	Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol Caerdydd	
Deb Hill	CLILC/Abertawe	
Tom Lunn	Rhwydwaith Arena	

Croeso a Chyflwyniad
Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan y cadeirydd, Diana Reynolds. Cyhoeddodd fod Ann John bellach wedi ymgymryd â'r swyddogaeth forol yn Llywodraeth Cynulliad Cymru.

Cyflwyniad 1: Gwaith Canolfan Ymchwil Amgylcheddol Cymru (Dr Shaun Russell)
Bydd y cyflwyniad PowerPoint a gafwyd gyda'r sgwrs hon i'w weld ar wefan Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru (biodiversitywales.org.uk).

Sefydlwyd y Ganolfan er mwyn helpu i droi gwyddoniaeth yn bolisïau, ac mae wedi'i lleoli yng Nghanolfan Amgylchedd Cymru ym Mangor. Bydd yn helpu i gydgysylltu a chyd-drefnu gwaith ymchwil i gefnogi'r Strategaeth Amgylcheddol ar gyfer Cymru drwy sefydlu pa waith ymchwil sy'n cael ei wneud gan wahanol bobl mewn gwahanol rannau o Gymru a gwella'r cysylltiadau rhwng gwahanol grwpiau ymchwil. Bydd y Ganolfan hefyd yn ganolbwynt ar gyfer lledaenu gwybodaeth am ymchwil amgylcheddol. Dylai'r wefan: www.werh.org fod yn barod erbyn Awst – Medi, a bydd modd ichi chwilio am wybodaeth yn ôl pwnc, ffrydiau ariannu ac ati. Bydd y gweithdy cyntaf, a gynhelir ym mis Hydref, yn ymwneud â gwaith monitro amgylcheddol – bydd manylion ar gael cyn bo hir.

Mae Diana Reynolds eisoes wedi gofyn i'r Ganolfan edrych pa waith ymchwil sy'n cael ei wneud yng Nghymru ym maes Bioamrywiaeth.

Mae'r Gweinidog wedi dweud y dylai'r Strategaeth Amgylcheddol fod yn sail i bob strategaeth arall ac mae'r Ganolfan hefyd yn ymchwilio i hyn ac yn ystyried sut y gellir sicrhau cysondeb rhwng grwpiau ymchwil yng Nghymru ar sail camau gweithredu Cynllun Gweithredu'r Strategaeth Amgylcheddol.

Bwriedir cynnal cynhadledd gyntaf y Ganolfan yng Nghaerdydd yn Ionawr 2009.

Gallwch gysylltu â Shaun drwy anfon e-bost at s.russell@bangor.ac.uk

Trafodaeth
Mae grwpiau cynefinoedd Cymru'n cael eu sefydlu ar hyn o bryd. Un o'r meysydd y bydd y grwpiau hyn yn eu goruchwylio yw gwaith ymchwil. Gofynnwyd a allai'r Ganolfan helpu gyda'r trefniadau. Pan fyddai'r cwestiynau ymchwil lefel uchel wedi cael eu pennu yn y Strategaeth Amgylcheddol ar gyfer Cymru gallent edrych wedyn ar gamau gweithredu mwy penodol mewn meysydd penodol fel hyn.

> **GWEITHREDU 1 - Tîm Cymorth: anfon rhestr o grwpiau cynefinoedd Cymru at Shaun Russell.**

Gofynnwyd hefyd a ddylai sefydliadau PBC fod yn anfon gwybodaeth at y Ganolfan ynteu a fyddai'r Ganolfan yn gofyn am y wybodaeth. Mae'r ddau'n berthnasol. Bydd y Ganolfan yn casglu gwybodaeth e.e. drwy gylchlythyrau, ond byddai o gymorth hefyd pe gallai sefydliadau gysylltu â'r Ganolfan i ddweud pa waith ymchwil y maent yn ymwneud ag ef.

> **GWEITHREDU 2 - PAWB: anfon gwybodaeth briodol am unrhyw waith ymchwil sy'n cael ei wneud gan eich sefydliad at Shaun Russell (s.russell@bangor.ac.uk, ffôn: 01248 382234).**

> **GWEITHREDU 3 - Nigel Ajax-Lewis a Tim Stowe: gofyn i Gyswllt Amgylchedd Cymru ofyn i'w aelodau anfon gwybodaeth am weithgareddau ymchwil i'r Ganolfan.**

Un o amcanion gwreiddiol y Ganolfan oedd sicrhau adroddiadau gwrthrychol am gyflwr yr amgylchedd. Gofynnwyd a oedd hyn yn dal yn rhan o'r weledigaeth. Gwneir hyn drwy gadw'r wefan yn gyfredol yn hytrach na chynhyrchu adroddiad ysgrifenedig.

Mae llawer o'r anghenion sy'n ymwneud â Chynefinoedd a Rhywogaethau yn berthnasol i bob rhan o'r DU. Bydd y Ganolfan hefyd yn edrych ar waith perthnasol a baratowyd ar gyfer gweddill y DU. Mae Shaun wedi bod yn cyflawni rôl gynghori gyda Chyngor Ymchwil Prydain ers 15 mlynedd a bydd yn parhau â'r rôl hon ac yn ei defnyddio er mwyn cael gwybodaeth berthnasol.

> **GWEITHREDU 4 - Shaun Russell: cysylltu â Gweithdy Cyflwr yr Amgylchedd ym mis Hydref i ofyn i'r Tîm Cymorth drosglwyddo'r wybodaeth i aelodau PBC er mwyn sicrhau presenoldeb/mewnbwn PBC.**

Papur 4. Cynllun Datblygu Gwledig: Echel 2: Adolygiad o Gynlluniau Rheoli Tir. (Mike Dunn)
Ceir ymrwymiad yn y Cynllun Datblygu Gwledig i barhau â'r cynlluniau amaeth-amgylcheddol presennol nes y bydd y Cynlluniau newydd yn cael eu cyflwyno yn 2010. Bydd aelod-wladwriaethau'r UE yn diwygio cynlluniau datblygu gwledig yn gynnar y flwyddyn nesaf er mwyn ystyried 'agenda her' Archwiliad Iechyd y PAC. Yng Nghymru ar hyn o bryd mae popeth sy'n rhan o Echel 2 yn cael ei adolygu. Nid yw'r cynlluniau

amaeth-amgylcheddol presennol yn cyflawni pob diben ac mae angen gwell trefniadau monitro.

Mae'r cynlluniau newydd yn debygol o ganolbwyntio ar y canlynol:
Rheoli carbon – dal a storio carbon sy'n bodoli'n barod, (e.e. ar fynydd-dir Cymru), creu coetiroedd neu wlyptiroedd newydd, a chnydau ynni o bosibl (e.e. coedwigaeth cylchdro byr).
Rheoli ansawdd dŵr – ffermio sensitif i'r dalgylch.
Rheoli ansawdd dŵr – rheoli'r risg o lifogydd.
Rheoli bioamrywiaeth.
Tirwedd a threftadaeth – yn gysylltiedig â chynlluniau eraill.
Mynediad – datblygu agwedd fwy strategol at hawliau tramwy a llwybrau cenedlaethol.

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru'n ystyried tri dewis posibl ar hyn o bryd fel sail ar gyfer ymgynghoriad:

1. Cynlluniau cwbl newydd yn seiliedig ar ganlyniadau lefel uchel.
2. Tebyg i'r presennol h.y. parhau â chynlluniau iawndal ar gyfer ardaloedd llai ffafriol ac addasu Tir Gofal, Tir Cynnal, a Choetiroedd Gwell i Gymru.
3. Dull hybrid, rywle yn y canol rhwng y ddau uchod.

Mae adolygiad y grŵp rhanddeiliaid yn mynd rhagddo'n dda. Mae'r grŵp hwn yn cynnwys cynrychiolwyr o PBC. Mae awgrymiadau ar gyfer dulliau ymgynghori wedi cael eu cyflwyno i'r gweinidogion ac rydym yn gobeithio y bydd yr ymgynghoriad yn cael ei gyhoeddi yn yr hydref eleni ac y caiff ei weithredu yn 2010.

Gofynnodd Gareth Ellis a fydd y cynllun yn cynnwys camau ar gyfer tir comin. Cadarnhawyd y byddai camau ar y cyd yn cael eu hannog ar gyfer tir comin. Awgrymodd Robin Woodyatt y gallai'r corff monitro pryfed afonydd ddarparu gwybodaeth am ansawdd dŵr gan fod yr afonydd yn cael eu monitro bob mis gan ddarparu gwybodaeth gyfredol.

GWEITHREDU 5 - Robin Woodyatt: anfon manylion ar gyfer cysylltu â'r rhai sy'n monitro pryfed afonydd at Mike Dunn.

Holodd Hannah Pitt ynglŷn â chyfleoedd i weithio ar y cyd ym mhob un o'r 3 dewis. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru'n awyddus i dargedu cyfran sylweddol o'r swm bach o arian newydd sydd ar gael tuag at weithio ar y cyd.

Gofynnodd David Parker a oedd amserlen. Bydd Mike Dunn yn cyfarfod y Gweinidog ar 16 Gorffennaf. Mae'n gobeithio y bydd mewn gwell sefyllfa i lunio amserlen yn dilyn y cyfarfod hwn, ond dywedodd fod angen i'r ymgynghoriad gael ei gyhoeddi mewn gwirionedd ym Medi/Hydref er mwyn gallu cyflwyno'r cynlluniau erbyn 2010.

Diolchodd y Cadeirydd i Mike Dunn am adroddiad mor fanwl.

GWEITHREDU 6 - Diana Reynolds: darparu manylion gan Bwyllgor Archwilio Amgylcheddol y DU i Mike Dunn a John Westlake.

Papur 5: Prosiect Biosffer Dyfi (Pete Frost)
(http://www.ecodyfi.org.uk/biosphereproject/index.html)
Fel rhan o'r gwaith o foderneiddio prosiect Biosffer Dyfi gobeithir y bydd y gymuned gyfan yn dysgu gweithio mewn cysylltiad agosach â'r amgylchedd. Yn 2004 sefydlwyd grŵp llywio er mwyn canfod a oedd pobl Bro Ddyfi'n awyddus i ailgyflwyno Biosffer Dyfi i fod yn fiosffer modern. Cytunwyd y dylai'r ardal ddod yn fiosffer UNESCO a chyflwynodd Cyngor Sir Ceredigion gais er mwyn cynnwys Aberystwyth o fewn ffiniau'r warchodfa. Cymeradwywyd y cais gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ac mae'r ffurflenni'n cael eu hadolygu gan UNESCO ar hyn o bryd. Rydym yn gobeithio cael y canlyniad yng ngwanwyn 2009.

Fel rhan o'r prosiect mae'r gymuned leol yn gweithio er mwyn gwella bioamrywiaeth. Gall dynodiad UNESCO ychwanegu gwerth at gynnych a gwasanaethau lleol. Bydd y biosffer wedi'i gysylltu â 450 o warchodfeydd eraill. Bydd y rhain yn gweithredu fel labordai i ddysgu sut i weithio mewn amgylchedd lle mae'r hinsawdd yn newid. Ceir mwy o wybodaeth ar y wefan: www.dyfibiosphere.org.uk.

Nodwyd y sefyllfa gan Grŵp Llywio PBC a dywedodd ei fod yn fodlon. Diolchwyd i Pete am ei bapur cynhwysfawr.

Mae cysylltiadau'n bodoli'n barod rhwng prosiect Dyfi a phrosiectau mawr eraill e.e. Prosiect Datblygu Gwledig Mynyddoedd Cambria. Roedd PBC yn annog mwy o gydweithio rhwng prosiectau o'r fath.

Mae pobl yn allweddol i strategaeth ddiwygiedig UNESCO (gweler dad-ddynodi St Kilda) ond gofynnodd Tim Stowe beth yn union y mae statws biosffer yn ei gyfrannu o safbwynt bioamrywiaeth. Dywedodd Diana Reynolds fod £20,000 wedi'i gyfrannu gan y Gweinidog ar gyfer gwaith datblygu cynaliadwy a gwarchod natur ar lawr gwlad. Gall statws UNESCO hefyd agor drysau er mwyn cael cymorth ariannol, er nad oes unrhyw elfen gyllido'n gysylltiedig â'r statws ei hun.

Roedd Tim Stowe yn siomedig bod safle St Kilda wedi cael ei ddad-ddynodi. Dywedodd Pete Frost fod gwarchodfeydd blaenorol UNESCO yn aml yn cynnwys ardaloedd sydd wedi'u dynodi'n barod fel Gwarchodfeydd Natur Cenedlaethol ac sydd felly eisoes yn cael eu rheoli gyda'r bwriad o warchod natur. Roedd St Kilda eisoes yn safle Treftadaeth y Byd ac, o ganlyniad, roedd eisoes yn cael ei reoli fel gwarchodfa natur, felly ni fyddai dynodiad UNESCO yn debygol o ddarparu llawer o fudd ychwanegol o safbwynt bioamrywiaeth. Fodd bynnag, mae'r sefyllfa ym Mro Ddyfi'n wahanol a gobeithir y bydd pobl yn newid eu ffyrdd o fyw yn y gwarchodfeydd dynodedig hyn. Gyda'r gwarchodfeydd, dylai bioamrywiaeth a'r amgylchedd ddod â manteision cadarnhaol i'r economi a'r gymuned. Os bydd yr ardal yn llithro, yna gallai gael ei dadgomisiynu, a gallai hynny gael effaith negyddol ar yr ardal.

Diolchodd Peter Frost i'r RSPB a Tim Stowe am eu mewnbwn i brosiect Dyfi.

Dywedodd David Jenkins fod 90% o'r tir sydd yn ardal biosffer Dyfi yn eiddo i'r Cymry cynhenid a bod angen bod yn ofalus er mwyn sicrhau bod y rhyngweithiad gyda newydd-ddyfodiaid yn gadarnhaol. Dywedodd Pete Frost fod arweinwyr cymunedol yn symud pethau yn eu blaenau bob yn gam bach. Roedd hyn yn creu agwedd fwy cadarnhaol a chydweithio agos, o ganlyniad, gyda thirfeddianwyr. Maent hefyd wedi bod yn gweithio mewn cysylltiad agos gyda'r undebau amaethyddol sy'n cysylltu â thirfeddianwyr, gan obeithio dangos y gall bioamrywiaeth fod o fudd iddynt, ac nad rhwystr arall mohono.

Awgrymodd David Parker y gallai prosiect biosffer Dyfi helpu'r gymuned i wynebu'r her o ganlyniad i lefel y môr yn codi a'r effeithiau difrifol y byddai hyn yn eu cael ar Fro Ddyfi, ei bioamrywiaeth a'i phobl.

Gofynnodd Steve Bromley a oedd cais wedi'i wneud am arian gan Gyngor Cefn Gwlad Cymru neu Lywodraeth Cynulliad Cymru, ac ar beth y byddai'r arian hwnnw'n cael ei wario. Dywedodd Pete Frost eu bod yn awyddus i'r amgylchedd gynhyrchu ei gyllid ei hun a bod yn hunangynhaliol, ond y byddai'r Cyngor Cefn Gwlad yn cyfrannu rhywfaint o arian er mwyn sefydlu mentrau sectoraidd i ddechrau. Bydd hefyd yn helpu i ddatblygu gweithrediad y biosffer. Bydd Awdurdodau Lleol yn cynorthwyo drwy ddarparu'r trefniadau rheoli.

Braunton Burrows yw'r unig fiosffer UNESCO arall sydd yn y DU (http://www.northdevonbiosphere.org.uk/) ac mae wedi llwyddo i gael arian drwy'r cynllun Leader - (http://ec.europa.eu/agriculture/rur/leaderplus/index_en.htm).

Dywedodd Joanna Robertson fod rhai o'r cymalau a ddefnyddir yn y papur fel pe baent yn seiliedig ar hen destun UNESCO; derbynnir yn gyffredinol yn awr na all dyn oroesi heb ecosystemau iach (gweler Nodau Datblygu'r Mileniwm).
Gofynnodd Joanna hefyd a oedd cynlluniau i nodi a pherchnogi targedau'r Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth ar gyfer y warchodfa biosffer ac awgrymodd y dylid rhoi gwybod am gamau a gymerwyd drwy'r System Adrodd ar Weithredu Bioamrywiaeth.

GWEITHREDU 7 - Joanna: darparu targedau Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth sy'n berthnasol i ardal Biosffer Dyfi i Pete Frost.

GWEITHREDU 8 - Tîm Cymorth PBC: cynorthwyo ag unrhyw anghenion hyfforddi ar gyfer prosiect Dyfi yng nghyswllt defnyddio'r System Adrodd ar Weithredu Bioamrywiaeth.

GWEITHREDU 9 - Tîm Cymorth PBC: anfon gwybodaeth am wefan Eco-dyfi at aelodau PBC.

GWEITHREDU 10 - Pete Frost: anfon copi o daflen UNESCO i'r tîm cymorth er mwyn galluogi'r tîm i gael gwybodaeth am fanteision bioamrywiaeth

Braunton Burrows o'r daflen a'i hanfon i PBC ynghyd â dadansoddiad o gamau gweithredu ym maes bioamrywiaeth sydd wedi cael eu hariannu hyd yn hyn gan Lywodraeth Cynulliad Cymru.

GWEITHREDU 11 - PAWB: pawb i egluro manteision uniongyrchol bioamrywiaeth wrth baratoi unrhyw bapurau PBC.

GWEITHREDU 12 - Pete Frost: adrodd yn ôl yn flynyddol i PBC am gamau bioamrywiaeth Dyfi.

GWEITHREDU 13 - PAWB: helpu i wneud polisïau bioamrywiaeth yn rhan o brosiect biosffer Dyfi.

Papur 6: Cysylltiad Busnesau â PBC (Amy Mulkern a Phil Trembath)
Mae'r prosiect ARENA yn weithredol er mis Hydref, ac mae'n darparu canllawiau ar gyfer lleihau effeithiau negyddol ar fioamrywiaeth ac ymwybyddiaeth o'r ddeddfwriaeth bioamrywiaeth. Mae'n darparu holiadur i fusnesau, ynghyd ag adroddiad, rhestr o argymhellion a chynllun gweithredu yn dilyn hynny, gan nodi camau uniongyrchol a hirdymor y gellir eu cymryd. Mae hefyd yn cynnig grantiau i helpu i reoli safleoedd.

Mae Partneriaethau Natur Cymru yr Ymddiriedolaethau Natur yn gweithio gyda busnesau er mwyn sicrhau cyfoeth o fywyd gwyllt yng Nghymru, a chynnig cyngor gan yr Ymddiriedolaethau Natur.

Nodwyd bod PBC wedi ceisio sicrhau mwy o gysylltiad gyda busnesau yn y gorffennol ond heb lawer o lwyddiant. Er bod rhai cwmnïau (cenedlaethol) yn gallu ymgysylltu drwy drafod polisïau, teimlid bod y rhan fwyaf o fusnesau yn awyddus i ymddangos yn gadarnhaol i'r gymuned leol, felly ymgysylltu â gweithgareddau lleol fyddai'n fwyaf priodol.

Cynigid y gallai busnesau ymgysylltu drwy grwpiau Cynlluniau Gweithredu Bioamrywiaeth rhanbarthol, ond y dylai'r busnesau hyn allu dangos rhywfaint o ymrwymiad i fioamrywiaeth yn barod. O ganlyniad, byddai angen rhyw fath o broses sgrinio e.e.

- Byddai angen Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth er mwyn cael cod ymddygiad a fyddai'n egluro unrhyw gymeradwyaeth gan PBC / hybu busnesau ar wefan ac yn darparu strategaeth ymadael fel bod modd rhoi'r gorau i'r gymeradwyaeth pe bai angen.
- Gallem nodi ar wefan PBC, neu wefannau eraill, pwy sy'n gweithio gyda Phartneriaethau Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol, a rhoi cyhoeddusrwydd i'r gwaith da sy'n cael ei wneud, er y byddai arnom angen rheolau llym ar gyfer y fframwaith hybu.

Byddai'r math hwn o ymgysylltiad ar gyfer busnesau sydd eisoes yn ymwneud â bioamrywiaeth er mwyn helpu i gynnal brwdfrydedd a cheisio cael mwy o adnoddau i

gamau gweithredu ar lawr gwlad. Yn aml iawn mae bioamrywiaeth yn cael ei weld fel rhywbeth sy'n ail i faterion amgylcheddol eraill megis rheoli gwastraff. Dylid sicrhau cymaint o gysylltiad ag sy'n bosibl rhwng bioamrywiaeth a blaenoriaethau cwmnïau.

Fel man cychwyn, mae Amy Mulkern wedi ysgrifennu ychydig o eiriau ar gyfer gwefan newydd PBC i ddangos sut y gall busnesau helpu bioamrywiaeth.

GWEITHREDU 14 - Amy Mulkern a Sean McHugh: cynhyrchu tudalennau bioamrywiaeth ar gyfer busnesau ar wefan newydd PBC.

Consensws cyffredinol Grŵp Llywio PBC ar y mater hwn oedd y byddai'n well darparu cysylltiad rhwng Cynlluniau Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol a busnesau yn hytrach na chael busnesau i fod yn rhan o grwpiau Cynlluniau Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol, a bod ymgysylltu ar lefel Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol yn well nag ymgysylltu ar lefel ranbarthol. Mae Grŵp Gwyliadwriaeth Aberdaugleddau'n enghraifft o fusnesau, grwpiau bywyd gwyllt a chyrff rheoleiddio'n gweithio gyda'i gilydd.

Roedd PBC yn fodlon creu Grŵp Gorchwyl a Gorffen er mwyn llunio fersiynau drafft o Femoranda Cyd-ddealltwriaeth, datganiadau cefnogi, datganiadau cymeradwyo ac yn y blaen. Dylai'r drafftiau hyn ategu gwaith y Ddraig Werdd a dylent fod yn gysylltiedig â'r gwasanaethau sy'n cael eu darparu'n barod gan ARENA, Ymddiriedolaethau Natur a Shared Earth Trust.

GWEITHREDU 15 - Tîm Cymorth PBC: Sefydlu Grŵp Gorchwyl a Gorffen *Ymgysylltu â Busnes* sy'n cynnwys Amy Mulkern, Tom Lunn (arweinydd), Robin Woodyatt, Earthtrust, ac o leiaf un Swyddog Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol.

GWEITHREDU 16 - Gareth Ellis a Kate Williamson: nodi swyddogion Cynlluniau Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol sy'n barod i fod yn aelodau o'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen hwn.

Papur 7: Y Wybodaeth Ddiweddaraf am Droseddau yn erbyn Bywyd Gwyllt (Ian Guilford)

Cyflwynwyd gwybodaeth am rai o'r achosion diweddaraf o droseddau yn erbyn bywyd gwyllt yng Nghymru gan y Rhingyll Ian Guilford (gweler hefyd Atodiad 3 i'r papur):

- Cerrig mân ar lan afon Rheidol yn Aberystwyth, Ceredigion- gweithrediadau heb ganiatâd ar SoDdGA, dirwy resymol o £4,000 ynghyd â £5,000 o gostau i'r Cyngor Cefn Gwlad.
- Y Fenni – rhyddhad amodol a £100 o gostau; pledio'n euog i ddefnydd anghyfreithlon o fagl Larson.
- Gogledd Cymru, ystlumod – ystlumod hirglust ac ystlumod Natterer, dirwy o £5,000.

- Boncath, Sir Benfro – cloddio am foch daear a gyrru cŵn ar eu holau, dedfryd ohiriedig o garchar am 6 mis, 240 awr o wasanaeth cymunedol, a gwaharddiad rhag cadw cŵn am 7 mlynedd, £4,000 o gostau.

Mae hyfforddiant wedi'i ddarparu ar gyfer swyddogion Gogledd Cymru ac mae 24 wedi'u hyfforddi'n llawn mewn Troseddau yn erbyn Bywyd Gwyllt erbyn hyn (cwrs a oedd yn cael ei ariannu gan y Cyngor Cefn Gwlad). Dim ond 17 sydd gan y lluoedd eraill yng Nghymru rhyngddynt. Mae hyn wedi'i ddwyn i sylw'r uwch swyddogion. Mae gan Wasanaeth Erlyn y Goron gynllun hefyd er mwyn sicrhau un pwynt cyswllt ym mhob rhanbarth.

Yn ychwanegol at hyn mae gan Heddlu Gogledd Cymru swyddog amgylchedd/bioamrywiaeth sy'n edrych sut y gall yr heddlu fod o gymorth ym maes bioamrywiaeth e.e. y dolydd blodau gwyllt yn y pencadlys a blychau ystlumod/adar. Mae gan Heddlu De Cymru swyddog tebyg hefyd, ond nid oes un gan y ddau lu arall hyd yn hyn.

GWEITHREDU 17 - Cyngor Cefn Gwlad Cymru ac Ian Guilford: adolygu blaenoriaethau Troseddau yn erbyn Bywyd Gwyllt Cymru ac adrodd yn ôl i PBC maes o law.

GWEITHREDU 18 - Llywodraeth Cynulliad Cymru: uned cyswllt yr heddlu yn LlCC i anfon nodyn at awdurdodau'r heddlu ynglŷn â'r angen am swyddogion troseddau yn erbyn bywyd gwyllt, gan gynnwys rhestr gyfeirio Deddf yr Amgylchedd Naturiol a Chymunedau Gwledig ar gyfer gwasanaeth yr heddlu.

GWEITHREDU 19 - Ian Guilford: adolygu'r Argymhellion yn adolygiad yr Alban (gweler Atodiad 2) a nodi meysydd gweithredu sydd wedi'u cwblhau / sy'n amherthnasol / sy'n bosibl ar gyfer Cymru ac adrodd yn ôl i PBC maes o law.

Awgrymodd David Parker y dylid cynnal y ffurf a ddechreuwyd gan Ian ar gyfer y rhestr o achosion o Droseddau yn erbyn Bywyd Gwyllt h.y. ychwanegu'r achosion newydd a chadw'r hen achosion ar y rhestr fel bod modd cymharu hen achosion ac achosion newydd. Bydd y rhestr yn cael ei chynnal ar wefan PBC fel bod pawb yn gallu ei defnyddio. Mae'r rhestr yn cynnwys crynodeb byr. Bydd manylion mwy o achosion ar gael pan fydd yr achosion wedi'u cwblhau a'r manylion wedi cael eu rhyddhau i'r cyhoedd, a bydd cyswllt yn cael ei ddarparu i hyn. Yn y cyfamser, pe bai rhywun yn awyddus i gael mwy o fanylion am achos penodol gellir cysylltu ag Ian Guilford.

GWEITHREDU 20 - Sean McHugh: sicrhau bod y rhestr o Droseddau yn erbyn Bywyd Gwyllt i'w gweld ar y wefan newydd

GWEITHREDU 21 - PAWB: os bydd rhywun yn gweld bod achosion defnyddiol heb eu cynnwys yn rhestr Ian dylent gysylltu ag ef.

Papur 8: Partneriaeth Ffurfiol Arfaethedig rhwng PBC a Natur Cymru Cyf. (www.naturcymru.org.uk)
Penderfynwyd y dylai'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth gael ei ystyried fel drafft ar hyn o bryd ac fe'i cymeradwywyd mewn egwyddor fel y dull priodol o weithredu yn hytrach na derbyn yr holl fanylion ar hyn o bryd.

Byddai Natur Cymru'n hoffi cael cefnogaeth gan PBC ar ffurf:

- Cymorth ariannol ac ymarferol
- Marchnata, gwerthu, cyrraedd cynulleidfa ehangach
- Cyfraniadau, yn enwedig yng nghyswllt yr iaith Gymraeg a/neu gan Ganolbarth a De Cymru

Ymhlith y sylwadau ysgrifenedig ynglŷn â'r papur nodwyd bod y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth drafft yn awgrymu Grŵp Llywio, ond y byddai hyn yn golygu haen arall o fiwrocratiaeth. Nid oedd y defnydd o'r geiriau 'partner' ac 'aelodau' wedi'i ddiffinio'n benodol yn y Memorandwm a bydd yn cael ei egluro yn y drafft nesaf. Dylid nodi'n glir beth yw pwrpas Natur Cymru, h.y. nad dyma'r unig bwynt cyhoeddusrwydd ar gyfer PBC.

GWEITHREDU 22 - Natur Cymru: dod â'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth yn ôl i PBC ar ôl ei ailwampio.

Cafwyd ambell gynnig o gymorth i Natur Cymru yng Nghyfarfod y Waun (3ydd cyfarfod Grŵp Llywio PBC) ac mae'r cynigion hyn yn cael eu datblygu. Cynigiodd Robin Woodyatt hefyd y gallai ledaenu'r gair mewn digwyddiadau afonydd yn y dyfodol a chynigiodd Diana Reynolds stondin FWAG yn Sioe Frenhinol Cymru ac yn yr Eisteddfod.

GWEITHREDU 23 - PAWB: cynnig unrhyw gymorth arall neu erthyglau ac ati i Natur Cymru.

Mae'n bwysig bod Natur Cymru'n adlewyrchu buddiannau a barn aelodau PBC.

GWEITHREDU 24 - PAWB: anfon unrhyw sylwadau ynglŷn â pha mor dda y mae Natur Cymru'n bodloni dyheadau PBC at David Parker d.parker@ccw.gov.uk

Cyflwyniad 2: Y Grŵp Tacsonomig – Cen (Ray Woods)
Traddodwyd anerchiad gan Ray Woods ar gyflwr Cen yng Nghymru. Bydd y cyflwyniad PowerPoint a ddangoswyd gyda'r anerchiad a'r daflen i'w gweld ar wefan PBC (biodiversitywales.org.uk).

Cymru, o ystyried ei hunedau arwynebedd, sydd â'r amrywiaeth mwyaf o rywogaethau o gen ar y ddaear, felly mae'n adnodd anarferol o bwysig. Mae hen fwyngloddiau metel yn

cynnwys fflora cen sydd o bwysigrwydd rhyngwladol. Mae gan Brydain oddeutu 100 o rywogaethau o ffyngau sydd ddim ond yn bodoli mewn symbiosis cen.

Mae PBC wedi cynyddu pwysigrwydd cen felly mae mwy o bobl wedi bod yn chwilio am gen yn ddiweddar ac mae mwy o wahanol fathau wedi cael eu cofnodi. Mae *Heterodermia leucomela* wedi'i ganfod mewn mwy o leoedd na'r disgwyl. Mae prinder gwybodaeth ecolegol am lawer o rywogaethau o hyd, e.e. *Graphina paucilocula*ta (sydd i'w weld ar 5 safle yng Nghymru), rhywogaeth sy'n tyfu ar goed cyll. Mae rheoli cynefinoedd yn gallu cael effaith bwysig ar dwf cen. Mae *Bioteridium* i'w weld ar un llwyfen sydd wedi llwyddo i osgoi clefyd llwyfen yr Isalmaen. Mae'n hoffi llwyfenni aeddfed neu hynafol. Mae ar rywogaeth arall angen diferion parhaol o sug, ac mae'n anodd iawn ail-greu hynny.

Dim ond ar greigiau ym mharth llifogydd afon Gwy ac ychydig o'r afonydd sy'n llifo i afon Gwy y mae cen gludiog yr afon i'w weld. Mae'n cael ei ddifrodi ar hyn o bryd gan silt, elyrch a gwyddau. Mae un cen pen pin sydd ddim ond i'w weld ar bren hynafol megis hen ysguboriau (ystyllod derw hynafol). Mae Tir Gofal wedi gosod ystyllod pren meddal newydd yn lle llawer o'r hen ystyllod gan ddinistrio cynefin y rhywogaeth hon.

Roedd *Lobarium* i'w weld ar goed ledled y DU ar un adeg ond mae llawer llai ohono i'w weld yn awr o ganlyniad i lygredd (mae glaw asid yn dal yn broblem) a thorri coed. Nid yw egin y cen yn gallu teithio'n bell – uchafswm o 40m – gan eu bod fel pe baent yn rhy drwm i fynd ymhellach. Gall trawsblannu fod yn llwyddiannus, ac mae hyn yn awgrymu mai gwasgaru i gynefin addas yw'r broblem. Mae angen o leiaf 15 coeden ar gyfer poblogaeth *Lobarium* hyfyw.

Mae arbenigwyr cen yn brin iawn ym Mhrydain. Dechreuwyd cynllun prentisiaeth yn yr Alban, ac yn sgil hynny cafwyd cynorthwy-ydd i Brian Copin, 2 flynedd cyn iddo ymddeol, a thri ymgynghorydd proffesiynol. Gwirfoddolodd Frances Gillett i ymuno â'r cynllun prentisiaeth.

GWEITHREDU 25 - Llywodraeth Cynulliad Cymru: edrych a oes modd gwneud rhywbeth tebyg yng Nghymru.

GWEITHREDU 26 - Llywodraeth Cynulliad Cymru (Bill Somerfield): siarad gyda chydweithwyr yn y grŵp tacsonomig er mwyn sicrhau bod llai o gynefinoedd cen yn cael eu difrodi yn y dyfodol.

Awgrymodd Adam Rowe y dylid cefnogi hyfforddiant yng Nghymru. Mae prinder arbenigwyr mewn dosbarthiadau eraill hefyd, ond awgrymodd y cadeirydd y gallem dreialu'r maes hwn i ddechrau.

Cymeradwywyd y rhestr o gamau gweithredu er mwyn hybu cadwraeth cen gan Grŵp Llywio PBC.

GWEITHREDU 27 - Sean McHugh: Sean i weithio gyda Roy a thrafod dulliau o ariannu'r prosiect cen, gan gyflwyno adroddiad i PBC yn nodi pa rai o'r eitemau ar y rhestr y gellir eu cyflawni (a pha rai na ellir eu cyflawni) â'r adnoddau sydd wedi'u dyrannu i PBC ar hyn o bryd.

Tynnodd David Jenkins o Goed Cymru sylw'r Grŵp Llywio at brosiect lluosogi llwyfenni lle'r oedd llwyfenni'n cael eu tyfu o hen goed a oedd wedi goroesi clefyd llwyfen yr Isalmaen ac y gobeithid eu bod wedi datblygu rhyw gymaint o ymwrthedd iddo. Awgrymwyd y gallai PBC ddatblygu prosiect i wneud mwy o'r gwaith hwn.

GWEITHREDU 28 - Sean McHugh: ychwanegu lluosogi llwyfenni at y rhestr o gamau gweithredu yn gysylltiedig â chen a baratowyd gan Ray a chyflwyno adroddiad ar hyn gyda'r gweddill.

Gofynnodd Tim Stowe sut y gallai grwpiau fel yr RSPB gymryd camau cadarnhaol i hybu cen ar eu tir. Y peth pwysig yw ennyn brwdfrydedd staff a chynnig hyfforddiant er mwyn galluogi pobl i adnabod mathau o gen a gofalu amdanynt.

GWEITHREDU 29 - PAWB: cysylltu â Ray i gael sesiynau hyfforddi a helpu i ennyn brwdfrydedd staff unrhyw grwpiau sydd â diddordeb.

GWEITHREDU 30 - PAWB: roedd yr amgueddfa'n cynhyrchu taflenni adnabod ar gyfer grwpiau fel cen. Gellir cael copïau o'r rhain os oes gan unrhyw grŵp ddiddordeb mewn hybu cen. Cyswllt: Graham Oliver (graham.oliver@nmgw.ac.uk)

GWEITHREDU 31 - PAWB: hysbysu'r Canolfannau Cofnodion Lleol ynglŷn ag unrhyw rywogaethau y gwyddoch amdanynt.

GWEITHREDU 32 - PAWB: galluogi Canolfannau Cofnodion Lleol a rheolwyr safleoedd i gysylltu â'i gilydd os canfyddir cen er mwyn helpu i ddiogelu'r cen a sicrhau nad yw coed penodol yn cael eu torri.

Er bod enwau Cymraeg a Lladin ar gyfer pob math o gen sydd yng Nghymru, nodwyd ein bod yn dal yn brin o rai enwau Saesneg.

GWEITHREDU 33 – PAWB: anfon unrhyw gynigion ar gyfer enwau Saesneg ar gen at Ray Woods.

Papur 11: Materion yn codi o'r Cynlluniau Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol (Gareth Ellis)

Mae angen i Gynlluniau Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol wybod pan fydd y data newydd ar gyfer arolwg cynefinoedd Cam 1 ar gael.

Nodwyd y bydd Comisiwn Coedwigaeth Cymru'n cwblhau ei brosiect erbyn Rhagfyr 2008 ac y dylai allu dosbarthu'r data erbyn Ebrill 2009. Mae Alan Brown yn arwain y

gwaith yn y Cyngor Cefn Gwlad, gan weithio mewn cydweithrediad â Phrifysgol Aberystwyth.

GWEITHREDU 34 - David Parker a Michelle Bromley: Bydd David yn anfon nodyn i PBC ynglŷn â'r amserlen ar gyfer gwaith y Cyngor Cefn Gwlad. Bydd y Comisiwn Coedwigaeth yn ychwanegu nodyn at hwn.

Dyletswydd yr Amgylchedd Naturiol a Chymunedau Gwledig – gwrthdaro gyda dyletswyddau/deddfwriaethau eraill. Byddai cydgysylltwyr Cynlluniau Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol yn hoffi cael enghreifftiau yn dangos sut i ddatrys gwrthdaro o'r fath. Mae adran trafnidiaeth ac adfywio Llywodraeth Cynulliad Cymru wrthi'n ailysgrifennu canllawiau ar hyn o bryd. Mae rhestr gyfeirio fer ar gael i'w defnyddio pan fo gwrthdaro'n digwydd:

- Edrych a oes buddiannau sy'n ymwneud â natur
- Ystyried sut y byddwch yn lleihau difrod (os oes angen, gwneud y lleiafswm sy'n angenrheidiol er mwyn bodloni gofynion nad ydynt yn ymwneud â natur)
- Ystyried sut y byddwch yn lleihau effeithiau (lleoedd gwahanol, symud rhywogaethau, canfod cynefinoedd eraill ac yn y blaen)
- Yna cymryd y camau angenrheidiol er mwyn cydymffurfio cystal ag sy'n bosibl â'r ddeddfwriaeth gyfunol
- Cadw trywydd archwilio ar gyfer penderfyniadau

GWEITHREDU 35 - Tîm Cymorth PBC: anfon rhestr gyfeirio fer ynglŷn â gwrthdaro gyda dyletswyddau eraill at y cydgysylltwyr Cynlluniau Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol.

GWEITHREDU 36 - Llywodraeth Cynulliad Cymru (Bill Somerfield): Siarad gyda Tim Peppin er mwyn cael mater gwrthdaro rhwng dyletswydd yr Amgylchedd Naturiol a Chymunedau Gwledig a dyletswyddau eraill ar agenda CLlLC fel bod modd iddynt ddarparu cyngor ynglŷn â'r mater.

Papur 12: Dyfodol Cynlluniau Gweithredu Bioamrywiaeth yng Nghymru ar ôl adolygiad y DU (Gareth Ellis)

Roedd set ddiwygiedig o bwyntiau penderfyniadau wedi cael ei hanfon i gyfarfod y Grŵp Llywio gan fod grŵp gorchwyl a gorffen dyfodol cynlluniau gweithredu bioamrywiaeth wedi cyfarfod bythefnos cyn y Grŵp Llywio ac wedi penderfynu bod sylw wedi cael ei roi yn barod i'r pwyntiau penderfyniadau gwreiddiol yn rhywle arall:

Hen bwyntiau penderfyniadau 1-6

1 a 5 trosglwyddo i'r set newydd o bwyntiau penderfyniadau
2 Cyngor Cefn Gwlad Cymru wedi cytuno i gwblhau
3 a 6 yn cael eu trafod yn y fframwaith bioamrywiaeth
4 yn rhy gynnar i'w ddatrys (ond byddwn yn dod yn ôl ato)

Mae pwyntiau penderfyniadau newydd ar gael gyda'r papurau ar y wefan. Mae'r Cyngor Cefn Gwlad wedi cytuno i gynorthwyo gyda chostau cyfarfodydd grwpiau cynefinoedd.

Bydd Llywodraeth Cynulliad Cymru'n monitro cynnydd gobeithio drwy BARS, a bydd yn atgoffa partneriaid eraill os nad yw camau'n cael eu cymryd yn barod.

Rydym yn awyddus i reoli cynefinoedd ar gyfer rhywogaethau, felly mae'r grŵp gorchwyl a gorffen cynlluniau gweithredu bioamrywiaeth yn awyddus i gasglu ffynonellau canllawiau rheoli cynefinoedd er mwyn cael rhestr ganolog o ffynonellau gwybodaeth ar wefan PBC.

GWEITHREDU 37 – PAWB: anfonwch eich rhestrau o ffynonellau canllawiau rheoli at Julia Korn j.korn@ccw.gov.uk

Mae gan Diana Reynolds enwau ar gyfer aelodau Llywodraeth Cynulliad Cymru ar bob un o'r grwpiau Cynefinoedd. (Bydd Louise George yn cadeirio'r grŵp morol, bydd cydweithwyr o'r Gwasanaethau Technegol a Physgodfeydd yn bresennol, bydd Caryn Le Roux a Sian Hughes yn ymwneud â'r cynefinoedd tir amaethyddol, gyda Steve Chambers yn ymwneud â'r grwpiau eraill gyda chymorth gan bobl eraill yn ôl y galw.

Cytunwyd bod angen inni ystyried sut i flaenoriaethu'r rhywogaethau hynny sy'n brin iawn cyn inni eu colli.

Papur 13: Mecanwaith Newydd i Gefnogi Camau Bioamrywiaeth Ychwanegol yng Nghymru (Elinor Gwynn a Joanna Robertson)
Mae'r Cyngor Cefn Gwlad yn ystyried sut y gellid darparu cynllun ategol (ochr yn ochr â'r cynlluniau amaethyddol) er mwyn hybu camau bioamrywiaeth hirdymor a fyddai ar gael ledled Cymru. Bydd ymarfer cwmpasu'n cael ei gwblhau erbyn diwedd Mawrth 2009.

Dosbarthodd Joanna Robertson gardiau gyda chwestiynau arnynt. Atebwyd y cwestiynau hyn gan y Grŵp Llywio yn unigol ac mewn parau. Bydd canlyniadau'r ymarfer hwn yn cael eu hychwanegu at y cofnodion cyn gynted ag y byddant ar gael (tua dechrau mis Awst).

Amserlen ar gyfer yr ymarfer cwmpasu:

- Ymgynghori eang gyda grwpiau rhanddeiliaid yng nghynhadledd Aberystwyth ym mis Medi.
- Esgyrn sychion, Hydref, cyflwyno i'r Cyngor Cefn Gwlad a grwpiau eraill.
- Ymgynghorydd wedi'i gyflogi er mwyn dadansoddi, Ionawr 2009
- Dod yn ôl i gyfarfod mis Chwefror PBC
- Cyflwyno i Gyfarwyddwyr y Cyngor Cefn Gwlad, Mawrth 2009

GWEITHREDU 38 - PAWB: unrhyw farn, syniadau a gwirfoddolwyr: e-bost at Elinor Gwynn (Elinor.Gwynn@ccw.gov.uk)

GWEITHREDU 39- Sean McHugh: darparu cyfle i fynychu cynhadledd y DU ym mis Medi.

Papur 14: Cronfa Dreftadaeth y Loteri
Dwy brif neges gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri (gweler papur). 2il neges – nid oes gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri feini prawf gwrthrychol er mwyn pennu'r blaenoriaethau y mae angen eu hariannu.

Mae'r papur yn awgrymu y dylid cyflwyno cais cyfunol ar gyfer Cymru ar ôl asesu'r blaenoriaethau ein hunain. Fodd bynnag, mae rhai partneriaid eisoes yn paratoi ceisiadau ar gyfer y rownd gyfredol ac mae angen ystyried hyn gan na all sefydliad unigol gyflwyno nifer o geisiadau. Awgrymwyd felly y gellid cyflwyno cais ar y cyd ym Medi 2009.

Ychwanegodd Nigel Ajax-Lewis fod angen inni fod yn ymwybodol pwy arall sy'n ariannu camau gweithredu eraill, drwy arian cyfatebol. Holwyd hefyd a allai PBC ddosbarthu'r arian. Nid yw hyn yn debygol. Mae'n fwy tebygol y byddai'n rhaid cyflwyno cais manylach ar gyfer set benodol o brosiectau.

GWEITHREDU 40 - Diana Reynolds: Gofyn i Gronfa Dreftadaeth y Loteri a allai PBC helpu i benderfynu ynglŷn â cheisiadau.

Awgrymwyd y dylem ddefnyddio pobl yng Nghymru sydd â sgiliau paratoi ceisiadau am grantiau. Mae gan Gaerffili rai da.

GWEITHREDU 41 - Tîm Cymorth PBC: sefydlu Grŵp Gorchwyl a Gorffen i edrych ar ymarferoldeb y cynnig, gan gynnwys Tim Stowe (arweinydd), Robin Woodyatt, Adam Rowe.

Er mwyn pennu blaenoriaethau dylai'r prosiectau fod yn gysylltiedig â'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen Dyfodol Cynlluniau Gweithredu Bioamrywiaeth. Mae Fforwm Gwlyptir Cymru wedi gwneud rhywfaint o waith er mwyn nodi prosiectau mwy a chynlluniau ariannu addas. Gellid cyd-fynd â'r rhain. Yn gyntaf, mae angen inni gytuno ynglŷn â'r broses a phennu rheolau sylfaenol, yna meddwl am y blaenoriaethau ar gyfer gweithredu.

GWEITHREDU 42 - PAWB: anfon syniadau at Tim Stowe

Eitem 15: Y Bartneriaeth Forol –
Dim gwybodaeth ar gael gan nad oedd Steve Moon wedi gallu cysylltu â Lia Moutselou.

Eitem 16: Pwyllgor Sefydlog Cynllun Gweithredu'r DU ar Fioamrywiaeth (Diana Reynolds)
Roedd sylw wedi'i roi i'r rhan fwyaf o'r eitemau yn y cyfarfod hwn. Mae rhai newidiadau wedi cael eu gwneud i'r dangosyddion bioamrywiaeth (gwyfynod, ystlumod,

adar). Trafodwyd targedau'r Confensiwn ar Amrywiaeth Fiolegol a 2010 gan y pwyllgor ond ni ffurfiwyd unrhyw gasgliadau ynglŷn â'r camau nesaf.

Papur 17: Cynllunio a'r Gyllideb (Diana Reynolds ar ran Sean McHugh)
Y Gyllideb: Cymeradwywyd y gyllideb amlinellol. Bu tanwariant yn ystod y flwyddyn ddiwethaf a bydd Sean McHugh yn edrych sut y gellid defnyddio hyn i symud data (h.y. gwneud defnydd o wybodaeth gan gofnodwyr sydd wedi bod yn crynhoi ers blynyddoedd) gydag Adam Rowe.

GWEITHREDU 43 - PAWB: neilltuwch eich lle (am ddim!) yng Nghynhadledd Cynllun Gweithredu'r DU ar Fioamrywiaeth yn Aberystwyth ar 10 ac 11 Medi (e-bost: Paula.Hendy@defra.gsi.gov.uk)

GWEITHREDU 44 - Sean McHugh: Cysylltu â swyddfa'r Gweinidog i nodi'r amseroedd.

Cynhadledd 2009: Cytunasom i archebu ystafelloedd ym Mhrifysgol Morgannwg ar gyfer 16-17 Medi 2009.

GWEITHREDU 45 - Sean McHugh: archebu ystafelloedd ym Mhrifysgol Morgannwg ar gyfer 16-17 Medi 2009

GWEITHREDU 46 - PAWB: rhoi 16-17 Medi 2009 yn eich dyddiaduron.

Wythnos Bioamrywiaeth Cymru: Cafwyd wythnos lwyddiannus eleni eto. Hoffai PBC ddiolch i Siren am y cynnyrch pren rhagorol.

Cytunwyd i gynnal Wythnos Bioamrywiaeth Cymru y flwyddyn nesaf yn ystod yr 2^{il} wythnos ym Mehefin hefyd, ond i wneud rhywbeth ar Ddiwrnod Rhyngwladol Bioamrywiaeth, sef 22 Mai, i baratoi ar gyfer yr wythnos. Cytunodd y Grŵp Llywio y dylai'r gyllideb ar gyfer Wythnos Bioamrywiaeth Cymru 2009 fod yn £6500.

GWEITHREDU 47- PAWB : cynllunio digwyddiadau addas ar gyfer 22 Mai a/neu 6 –14 Mehefin.

Gofyn am astudiaethau achos yn ymwneud â'r Ddyletswydd NERC ar gyfer gwefan PBC:
Cyfeiriodd Diana Reynolds at lwyddiant y ddwy seminar a gynhaliwyd yn ddiweddar ar y Ddyletswydd NERC. Roedd cynghorydd neu swyddog lefel uchel o bob awdurdod yn bresennol. Cytunodd pob un i weithredu mewn rhyw ffordd. Digwyddiadau cadarnhaol iawn.

Dywedodd Adam Rowe fod angen ymestyn y seminarau i gyrff cyhoeddus eraill ac mae'r Gweinidog eisoes wedi dweud ei bod yn barod i wneud hyn.

GWEITHREDU 48 - Diana Reynolds: Paratoi astudiaeth achos Llywodraeth Cynulliad Cymru.

GWEITHREDU 49 - PAWB: Anfon astudiaethau achos yn ymwneud â'r ddyletswydd NERC at Sean McHugh s.mchugh@welshwildlife.org

GWEITHREDU 50 - Joanna Robertson a Bill Somerfield: diweddaru cynllun gweithredu'r ddyletswydd NERC.

Papur 18: Adolygu Cynnydd
Addawodd y Grŵp Llywio y byddai'n gweithredu'r egwyddorion mewn cyfarfodydd yn y dyfodol.

Trafodwyd ffurf cyfarfodydd yn y dyfodol. Cytunwyd y dylid cael llai o eitemau ar yr agenda ac y byddai strwythur tebyg i weithdy'n well gan barhau â chamau gweithredu y gellid eu rhaeadru. Gellid cyhoeddi'r wybodaeth ddiweddaraf fel set o bapurau gwybodaeth i'w darllen. Gellid anfon unrhyw sylwadau at yr ysgrifenyddiaeth.

Awgrymodd Aethne Cooke y gellid dilyn proses debyg i'r broses adolygu cynnydd ym maes atal colli bioamrywiaeth.

Teimlai David Parker y dylid rhoi mwy o eitemau yn ymwneud â'r môr a'r arfordir ar yr agenda.

GWEITHREDU 51 - Tîm Cymorth PBC: rhoi papurau'r GLl mewn un ffeil pdf fel bod modd defnyddio gliniaduron neu daflunwyr yn y cyfarfod fel nad oes angen i bawb argraffu'r papurau.

GWEITHREDU 52 - Frances Gillett: holi a yw'n fwy effeithlon defnyddio gliniaduron yn hytrach nag argraffu papurau a rhoi gwybod i'r GLl.

GWEITHREDU 53 - Tîm Cymorth PBC: ailgynllunio ffurf y cyfarfodydd a thempledi papurau er mwyn bodloni'r gofynion uchod.

GWEITHREDU 54 - Tîm Cymorth PBC: sicrhau amser ar gyfer ymarfer goleuadau traffig yn ymwneud ag atal colli bioamrywiaeth yn un o ddau gyfarfod nesaf y Grŵp Llywio.

Eitem 19: Cofnodion GLl4
Cywiro enw Mike Dunn ar t3
t5, 8 a 9 rhoi diweddariad cam 1 yn lle mapio cynefinoedd
GWEITHREDU 22, Vicki West ar ran Comisiwn Coedwigaeth Cymru
GWEITHREDU 23, rhoi HabMap yn lle Hab Map

Y diweddaraf am gamau gweithredu GLl4
7- Rydym yn dal i chwilio am wirfoddolwyr ar gyfer ymweliadau â hyrwyddwyr bioamrywiaeth.

GWEITHREDU 55 - PAWB: gwirfoddolwyr ar gyfer ymweliadau â hyrwyddwyr bioamrywiaeth i gysylltu â Joanna Robertson Joanna.robertson@ccw.gov.uk

18 – Grantiau ar gyfer defnyddio data, y wybodaeth ddiweddaraf mewn e-bost gan David Parker.

GWEITHREDU 56 - David Parker: anfon e-bost yn cynnwys y wybodaeth ddiweddaraf ynglŷn â grantiau ar gyfer defnyddio data.

25 - Swyddog cyllido, cael enwau gan y Cyngor Cefn Gwlad (Russell D'Arth), Comisiwn Coedwigaeth Cymru (Paul Finch) ac Asiantaeth yr Amgylchedd - Cymru (Helen Papathanasiou) er mwyn trefnu cyfarfod.

GWEITHREDU 57 - Tîm Cymorth PBC: cynorthwyo i drefnu'r cyfarfod hwn.

38 – Cysylltu â Chomisiwn Cymru ar y Newid yn yr Hinsawdd.

GWEITHREDU 58 - Diana Reynolds: Gofyn i Sean McHugh gysylltu â Chomisiwn Cymru ar y Newid yn yr Hinsawdd.

Eitem 20: Unrhyw Fater Arall
Y cyfarfod nesaf i'w gynnal ddydd Mercher, 12 Tachwedd yn swyddfa'r Cyngor Cefn Gwlad, Maes y Ffynnon, Bangor. Cytunasom i aros y noson gynt (a chyfarfod efallai am 'baned o de' y noson honno) gan ddechrau'r cyfarfod ei hun yn gynnar.

GWEITHREDU 59 – Yr Ysgrifenyddiaeth: holi a yw ystafelloedd y ganolfan ymchwil amgylcheddol ym Mangor ar gael gan eu bod yn agosach at yr orsaf na Swyddfa'r Cyngor Cefn Gwlad.

Cyfarfod mis Chwefror: Dydd Mawrth, 10 Chwefror 2009. Awgrymwyd Gregynog, yn y Canolbarth, fel lleoliad.

GWEITHREDU 60 - Tîm Cymorth PBC a David Jenkins: trafod y trefniadau ar gyfer neilltuo Gregynog a thrafnidiaeth o'r orsaf i'r cyfarfod.

Canlyniadau Bwrdd Polisi'r Gweinidog – mae'r Gweinidog yn awyddus i PBC ddarparu canllawiau plannu ar gyfer cyrion rhandiroedd er mwyn helpu rhywogaethau Cynlluniau Gweithredu Bioamrywiaeth. Nid yw'r Gweinidog yn bwriadu caniatáu i randiroedd cyhoeddus gael eu gwerthu. Disgwylir y bydd cynllun gweithredu'r strategaeth

amgylcheddol ac ymgynghoriad Coetiroedd i Gymru'n cael eu cyhoeddi yng nghanol Awst.

GWEITHREDU 61 - PAWB: unrhyw syniadau ar gyfer y canllawiau plannu i'w hanfon i'r tîm cymorth.

Holwyd Nigel Ajax-Lewis ynglŷn â'r cynnydd gyda Nodyn Cyngor Technegol 5. Ar hyn o bryd mae yn nwylo'r cyfreithwyr ac mae ganddynt lawer iawn o waith i'w wneud. Mae'r Gweinidog wedi dweud y dylid defnyddio'r fersiwn drafft presennol o Nodyn Cyngor Technegol 5 yn y cyfamser.
Dywedodd Adam Rowe fod cyfarfodydd Gwybodaeth Amgylchedd Cymru a chyfarfodydd GLl wedi cael eu cynnal. Maent yn dechrau llunio cynllun gweithredu gyda 6 thema allweddol. Cynhelir y cyfarfod nesaf ym mis Medi.

GWEITHREDU 62 - David Parker: llunio papur gwybodaeth ar gyfer cyfarfod nesaf Grŵp Llywio PBC yn seiliedig ar Fforwm Gwybodaeth Amgylchedd Cymru.

Diolchodd y Cadeirydd i bawb am eu gwaith caled a'u cyfraniad yn ystod y cyfarfodydd a rhwng y cyfarfodydd.

----------Diwedd y Cyfarfod----------

WBP STEERING GROUP MEETING 05 HELD AT NATIONAL MUSEUM OF WALES, CARDIFF ON 15 JULY 2008
Statistics derived from Agenda Item 13: Scoping a new mechanism to provide improved financial support for BAP action in Wales (JOANNA ROBERTSON & ELINOR GWYN)
Pairs of delegates were asked for their comments on:

1. What should the Mechanism do?
Comments:
Simple scheme; get skills to where they're needed.
Should reach places where agri-environment and Sction 15s do not reach;
Deliver action for BAP priorities; simple / complementary/ and add value
Provide a Grant-Bid-Officer for big applications.
Support; monitor; evaluate; prioritise; tie in with national strategies; BARS.
Quick system to get money out to people to quickly complete small-scale practical projects.
Halting biodiversity loss and restoration; achieving BAP related outcomes - terrestrial, freshwater and marine.
Allow proper management of important habitats by better co-rodination of the work to deliver more effectively.
Contributes to agreed targets/ positive action towards biodiversity plans – adding value.
Provide funding for research as well as practical actiion including supporting specialist knowledge.

2. Should it cover both biodiversity and geodiversity?



3. Area of coverage? ie.e All-Wales/Regional/Local



Comments included:
All Wales, but possible concentrate in areas with key connectivity needs, including cross border zones.

4. Name a scheme which has worked well and delivered good biodiversity outcomes.
Comments:
S15 Management Agreements.
First Steps Scheme (FC & Coed Cymru); Hedgerow Regeneration Scheme (CCW); LNCG (CCW & LAs).
CCW's old Parks & Orchards Scheme.
Flooding of (and Rehabilitation of) Gravel Pits.
CRoW Act Species ID Training (NMGW); LRC Funding Pakage from CCW 2008-2012.
Aren't Welsh Birds Brilliant; Wetland for Wales; Objective 1 Black Grouse Recovery.
Gower Commons Initiative: Local scheme doing practical conservation work on Gower.
Blaenau Gwent Biodiversity Action Grant Scheme (BAGS).
Species Challenge Fund (SCF).
Racking my brains for marine-related project, which has had "biodiversity outcomes". Lots of increased stakeholder involvement, information gathering but not addressed the elephants in the room. i.e. activities considered in the marine environment which cause most damage! Sorry to be so cynical! Please let me know if you think of any!
Russell Hobbs gave an example of Butterfly Conservation that had worked (but they hadn't got money enough to continue it), at last WBP.
Pembrokeshire Mill Ponds: creation of habitat, Water Vole breeding and re-introduction; Llangorse Lake: habitat creation / management – mink removal. Environment Wales.
Tomorrow's Heathland Heritage (HLF).

5. Why did it work well?
Comments:

Tailored to the requirements of the habitats/species. Machinery/stock available to land manager taken into consideration.
Simple, quick, plenty of "hands-on" support.
Focused, clear and appealing to the public.
Easy to do (plus some "sticks" in terms of requiring extraction industries to rehabilitate).
Greatly increase knowledge of species and habitats among biodiversity practitioners.
Wait and see!
Company brings land and capital, Wildlife Trust brings expertise.
Clear objectives. Determined team. Grants added to cover funds then matched so assemble large amount of money.
Other examples are Riparian Habitat improvement – all-Wales funds, carefully agreed criteria, focused on priority catchments etc. Joined-up across all co-delivery agents.
Energy put into practical conservation.
Local scheme for local people. Individuals could apply for money.
Very simple to access. Focused on biodiversity.
Collaboration of landowner/community with statutory body. Community provides the "will", statutory body provides the manpower or plant.
Extensive support mechanisms; monitoring; evaluations; collaboration; partnership working; best practice; sign posting.
Focused on biodiversity.

Notes from Joanna M Robertson
01 August 2008